# Harneisio a diharneisio ceffylau i’w defnyddio, o dan oruchwyliaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gallu harneisio a diharneisio ceffylau i'w defnyddio, o dan oruchwyliaeth. Mae'n cynnwys gallu nodi rhannau o'r harnais a chynorthwyo i'w roi ar y ceffyl yn ogystal â'i dynnu oddi ar y ceffyl.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud o dan gyfarwyddyd goruchwylydd. Gallai hyn fod yn oruchwyliaeth uniongyrchol neu gallai fod trwy roi cyfarwyddiadau a monitro gwaith.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. mynd at y ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl a pherygl i chi ac i eraill
3. roi coler pen ar y ceffyl a chlymu'r ceffyl gan ddefnyddio cwlwm rhyddhau'n gyflym, yn unol â chyfarwyddiadau
4. cadw rheolaeth dros y ceffyl tra'n gweithio
5. dewis yr harnais cywir ar gyfer y ceffyl penodol, yn unol â chyfarwyddiadau
6. rhoi'r harnais ar y ceffyl, o dan oruchwyliaeth
7. diharneisio'r ceffyl ar ôl ei ddefnyddio, o dan oruchwyliaeth
8. tacluso'r ardal ar ôl gwaith
9. glanhau a storio'r harnais ar ôl ei ddefnyddio, yn unol â'r cyfarwyddiadau
10. gwaredu deunyddiau gwastraff yn ddiogel ac yn gywir
11. bod yn ymwybodol o'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddefnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. eich rôl a'ch cyfrifoldebau yn harneisio a diharneisio ceffylau
3. rhannau'r harnais
4. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen arnynt a pherygl i chi eich hun ac i eraill
5. sut i harneisio a diharneisio ceffylau
6. sut i osod coler pen a chlymu ceffylau gan ddefnyddio cwlwm rhyddhau'n gyflym
7. sut i gadw rheolaeth dros y ceffyl tra'n gweithio
8. pwysigrwydd dewis yr harnais cywir ar gyfer y ceffyl penodol, yn unol â chyfarwyddiadau
9. pwysigrwydd rhoi'r harnais mewn safle priodol tra'n harneisio a diharneisio'r ceffyl
10. pwysigrwydd glanhau a storio'r harnais ar ôl ei ddefnyddio
11. sut i dacluso'r ardal ar ôl gwaith
12. y dulliau cywir o waredu gwastraff
13. eich cyfrifoldebau yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid

LANEq113

Harneisio a diharneisio ceffylau i’w defnyddio, o dan oruchwyliaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq113 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; harneisio; diharneisio |